Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Llywio'ch Ffordd trwy Wasanaethau Cymdeithasol

Daflen Ffeithiau 5: Diwallu eich anghenion

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com
Trydar: @comisiwnphcymru

Diwallu eich anghenion

Gall Awdurdod Lleol gyflawni ei ddyletswydd i ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth (neu anghenion cymorth gofalwyr) mewn nifer o ffyrdd.

Gall y rhain gynnwys:

- darparu gwasanaeth i chi
- trefnu bod unigolyn neu sefydliad arall yn darparu gwasanaeth i chi
- darparu, neu drefnu bod rhywbeth yn cael ei ddarparu, i rywun arall (er enghraifft i'ch gofalwr) er mwyn diwallu eich anghenion.

Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys gofal a chymorth yn eich cartref, llety mewn cartref gofal, cwnsela ac eiriolaeth, addasiadau i'ch cartref neu ddarparu gwybodaeth a chyngor i chi.

Mae'n bwysig nodi na fyddai'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth os ydynt yn cael eu diwallu gan ofalwr (os yw gofalwr yn diwallu rhan o'ch anghenion, dim ond yr anghenion sy'n weddill y byddai'n rhaid i'r Awdurdod Lleol eu diwallu). Os bydd gofalwr wedi cytuno i ddarparu gofal a chymorth i ddiwallu eich anghenion, bydd yn gwneud hyn yn lle'r Awdurdod Lleol, hyd yn oed er efallai y byddai gennych hawl i gael asesu eich anghenion gan yr Awdurdod Lleol. Rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod y gofalwr yn barod ac yn alluog i ddarparu gofal a chymorth i chi (Adran 35 o'r Ddeddf).

Mae gan ofalwyr hawl i ofyn mai'r Awdurdod Lleol lle mae'r unigolyn maent yn darparu gofal ar ei gyfer yn byw yw'r awdurdod sy'n diwallu eu hanghenion cymorth, yn hytrach na'r Awdurdod Lleol lle maent hwy'n byw. Gall yr Awdurdod Lleol lle mae'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth yn byw gytuno i wneud hyn ond nid oes yn rhaid iddo wneud hynny o dan y Ddeddf newydd (Adran 45 o'r Ddeddf).

Am ragor o wybodaeth am ddiwallu anghenion gofal a chymorth, gweler Adran 34 o'r Ddeddf a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion).

Gofal yn eich cartref eich hun

Er mwyn i anghenion gofal a chymorth yn eich cartref eich hun gael eu diwallu (e.e. Gofal Cartref), rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon bod hyd yr ymweliad yn ddigon i ddarparu'r gofal a chymorth sydd ei angen.

Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 34 o'r Ddeddf a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Tudalen 24.

Dewis o Lety Gofal Cartref

Os yw eich anghenion gofal a chymorth am gael eu diwallu trwy lety mewn gofal cartref, mae gennych hawl i ddewis pa gartref gofal yr hoffech fyw ynddo a rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu'r llety a ffefrir os gellir bodloni amodau penodol. Mae'r amodau hyn yn cynnwys:

- y bydd modd i'ch anghenion (fel y nodwyd yn eich Cynllun Gofal a Chymorth) gael eu diwallu gan gartref gofal;
- bod y cartref gofal a ffefrir gennych yn gallu diwallu eich anghenion (fel y nodwyd yn eich Cynllun Gofal a Chymorth);
- bod y dewis o gartref gofal a ffefrir gennych ar gael; a
- os nad yw'r llety a ffefrir yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol (h.y. darparwr annibynnol), bod darparwr y llety a ffefrir gennych yn cytuno i dderbyn telerau'r Awdurdod Lleol.

Os yw'r dewis o gartref gofal a ffefrir gennych yn costio mwy na'r hyn y byddai disgwyl i'r Awdurdod Lleol ei dalu fel arfer, rhaid i'r Awdurdod Lleol ddal i ddarparu'r llety o'ch dewis ar yr amod ei fod yn fodlon y byddwch chi (neu rywun ar eich rhan) yn gallu ac yn barod i dalu'r swm ychwanegol (h.y. tâl atodol) am arhosiad disgwyliedig yr unigolyn. Ni ddylai 'ffioedd atodol' byth gael eu defnyddio i dalu, na bod yn gymhorthdal, am ofal sylfaenol ac ni ddylai fod yn angenrheidiol i sicrhau bod eich anghenion yn cael eu diwallu.

Gall Awdurdod Lleol wrthod darparu'r dewis o gartref gofal a ffefrir gennych ond rhaid iddo baratoi datganiad ysgrifenedig sy'n dweud pam nad yw hyn yn bosibl.

Am ragor o wybodaeth, gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015.

Taliadau uniongyrchol

Mae taliadau uniongyrchol yn galluogi pobl i wneud eu dewisiadau eu hunain ynglŷn â'u gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr). Mae gennych chi hawl i gael 'tâl uniongyrchol' tuag at y gost o ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth (neu anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr). Ni all hyn ddigwydd oni bai:

- bod y taliad yn cael ei wneud i chi'n uniongyrchol, eich bod yn cytuno â'r trefniant hwn (a bod gennych chi'r galluogrwydd meddyliol i wneud hynny),
- bod yr Awdurdod Lleol yn credu bod hon yn ffordd dda o ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth, ac
- eich bod yn gallu rheoli'r taliadau ar eich pen eich hun (neu gyda help unigolyn neu sefydliad),
- neu, mewn achosion lle nad oes gan yr unigolyn alluogrwydd i gytuno:
    - bydd angen rhywun arall sy'n berson addas i reoli'r taliad uniongyrchol ac a fydd yn gweithredu er budd pennaf yr unigolyn,
    - bod yr unigolyn addas hwn wedi cytuno â'r trefniant hwn;
    - bod yr Awdurdod Lleol yn credu bod y taliadau uniongyrchol yn ffordd dda o ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn; a bod
    - y caniatâd angenrheidiol wedi'i roi i alluogi'r unigolyn i gael y taliadau uniongyrchol hyn.

Ni chaiff Awdurdod Lleol wrthod rhoi taliad uniongyrchol i chi am na fyddwch yn gallu ei reoli neu eich bod yn poeni am ei reoli. Rhaid i Awdurdod Lleol edrych ar bob opsiwn i'ch helpu i reoli eich taliad uniongyrchol. Rhaid iddynt sicrhau eich bod yn cael cymorth ar lefel sy'n briodol i'ch galluogi i reoli eich taliad uniongyrchol.

Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 50 o'r Ddeddf, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015, Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Tudalen 24.

Cynlluniau Gofal a Chymorth

Pan fydd unigolyn yn bodloni'r Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol (neu pan fydd Awdurdod Lleol o'r farn ei bod angen diwallu anghenion unigolyn er mwyn amddiffyn yr oedolyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod) rhaid i'r Awdurdod Lleol baratoi Cynllun Gofal a Chymorth.

Mae gennych hawl i gael eich cynnwys yn y broses o greu, adolygu ac addasu eich Cynllun Gofal a Chymorth (neu Gynllun Cymorth) a rhaid i'r Awdurdod Lleol ei adolygu'n barhaus. Os bydd Awdurdod Lleol yn credu bod eich amgylchiadau wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid i'r Awdurdod gynnal unrhyw asesiadau y tybia sy'n briodol, ac wedyn addasu'r Cynllun.

Gallai Cynllun Gofal a Chymorth ymwneud ag un gwasanaeth, sy'n diwallu un neu fwy o anghenion gofal a chymorth, neu gallai fod yn fwy cymhleth a chynnwys sawl gwasanaeth gwahanol, gan ddiwallu un neu fwy o anghenion. Gallai cynllun gofal a chymorth gynnwys camau sy'n cael eu rheoli gan yr unigolyn ochr yn ochr â rhai sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod Lleol.

Rhaid i Gynllun Gofal a Chymorth (a Chynlluniau Cymorth ar gyfer gofalwyr) gynnwys y canlynol:

- eich anghenion cymwys;
- eich canlyniadau personol;
- y camau sydd i gael eu cymryd gan yr Awdurdod Lleol a chan bobl eraill (os yn gymwys) i'ch helpu i gyflawni eich canlyniadau personol;
- y trefniadau i fonitro a yw eich canlyniadau personol wedi eu cyflawni; a'r
- trefniadau ar gyfer adolygu'r cynllun (sy'n cynnwys dyddiad adolygu pendant, a fydd wedi'i gytuno â'r unigolyn a / neu'r teulu).

Os yw rhai neu bob un o'ch anghenion yn cael eu diwallu trwy daliadau uniongyrchol, rhaid i Gynllun Gofal a Chymorth (neu Gynllun Cymorth ar gyfer gofalwyr) hefyd gynnwys:

- yr anghenion cymwys a fydd yn cael eu diwallu trwy daliadau uniongyrchol, a;
- swm ac amledd y taliadau uniongyrchol.

Gall Cynlluniau Gofal a Chymorth hefyd bennu rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn, gofalwyr ac aelodau'r teulu, ac ymarferwyr, yn ogystal â'r adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol) sydd eu hangen gan bob parti.

Os oes ymholiadau wedi'u gwneud gan yr Awdurdod Lleol yn unol â'i ddyletswydd i ymchwilio a yw unigolyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, rhaid i'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn sy'n destun yr ymholiadau hynny gynnwys cofnod o gasgliadau'r ymholiadau.

Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 54 o'r Ddeddf, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015 a Rhan 4 y Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Tudalen 13.

Symud i ardal Awdurdod Lleol newydd

Os ydych chi wedi rhoi gwybod i'ch Awdurdod Lleol eich bod yn bwriadu symud i ardal Awdurdod Lleol arall a'u bod yn fodlon bod y symud yn debygol o ddigwydd, rhaid i'ch Awdurdod Lleol hysbysu'r Awdurdod Lleol newydd.

Rhaid iddynt sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol newydd yr wybodaeth o'ch asesiad a chynllun gofal a chymorth (neu Gynllun Cymorth ar gyfer gofalwyr). Ar ôl cael hyn, rhaid i'ch Awdurdod Lleol newydd gynnal asesiad newydd, gan ystyried unrhyw newid y gallai'r symud ei gael ar eich anghenion gofal a chymorth (neu anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr).

Os nad yw eich Awdurdod Lleol newydd wedi cynnal asesiad erbyn yr adeg pan fyddwch yn symud i'w ardal yna rhaid iddynt ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth fel y nodwyd yn eich Cynllun Gofal a Chymorth presennol (neu Gynllun Cymorth ar gyfer gofalwyr) i'r graddau mae hynny'n rhesymol nes bydd asesiad newydd wedi'i gynnal.